

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Dyfodol Cynhyrchu Ynni The Future of Energy Production

Q11 Mick Bates: Will the First Minister make a statement on the future of energy production in Wales? OAQ1536(FM)

C11 Mick Bates: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol cynhyrchu ynni yng Nghymru? OAQ1536(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Assembly Government energy policy is based on providing clean, safe, affordable energy that secures the prosperity of the people of Wales. That is the theme of the Wales energy route map and our energy memorandum submitted to the Department of Trade and Industry's UK energy review. Copies of the memorandum have been sent to AMs.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae polisi ynni Llywodraeth y Cynulliad wedi'i seilio ar ddarparu ynni glân, diogel a fforddiadwy sy'n diogelu ffyniant pobl Cymru. Dyna thema map llwybr ynni Cymru a'n memorandwm ynni a gyflwynwyd i adolygiad ynni'r DU yr Adran Masnach a Diwydiant. Anfonwyd copïau o'r memorandwm at Aelodau'r Cynulliad.

Gallu Byrddau Iechyd Lleol i Gomisiynu Gwasanaethau Iechyd The Ability of Local Health Boards to Commission Health Services

C12 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am allu byrddau iechyd lleol i gomisiynu gwasanaethau iechyd? OAQ1551(FM) [W]

Q12 Rhodri Glyn Thomas: Will the First Minister make a statement on the ability of local health boards to commission health services? OAQ1551(FM) [W]

Y Prif Weinidog: Mewn partneriaeth â'r GIG ac eraill, yr ydym wrthi'n datblygu fframwaith comisiynu newydd i gael ei gyhoeddi yn yr haf ar gyfer ei weithredu ym mis Ebrill 2007, fel y nodwyd yn 'Cynllun Oes'.

The First Minister: In partnership with the NHS and others, we are developing a new commissioning framework to be issued in the summer for implementation in April 2007, as identified in 'Designed for Life'.

Plant sy'n Derbyn Gofal Looked-after Children

Q13 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on the number of looked-after children in Wales? OAQ1554(FM)

C13 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru? OAQ1554(FM)

The First Minister: As of 30 March 2005, there were 4,380 looked-after children in Wales. That figure excludes children in a series of short-term placements.

Y Prif Weinidog: Ar 30 Mawrth 2005, yr oedd 4,380 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys plant mewn cyfres o leoliadau tymor byr.

Gwasanaethau Podiatreg Podiatry Services

Q14 Catherine Thomas: Will the First Minister make a statement on podiatry services in Wales? OAQ1544(FM)

C14 Catherine Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau podiatreg yng Nghymru? OAQ1544(FM)

The First Minister: Commissioning responsibility for podiatry lies with local health boards. A draft strategy called 'Therapies for Modernisation' was published by the Welsh Assembly Government in December. That identifies the contributions of therapies including podiatry to the modernisation programme. Officials are analysing responses. The final document will be published in the summer.

Y Prif Weinidog: Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw comisiynu gwasanaethau podiatreg. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth ddrafft o'r enw 'Therapiau ar gyfer Moderneiddio' fis Rhagfyr. Yr oedd yn nodi cyfraniad therapïau, gan gynnwys podiatreg, at y rhaglen foderneiddio. Mae swyddogion wrthi'n dadansoddi'r ymatebion. Caiff y ddogfen derfynol ei chyhoeddi yn yr haf.

Gwell Gwasanaethau Iechyd i Bobl Hŷn Better Health Services for Older People

Q15 Denise Idris Jones: Will the First Minister make a statement about how measures introduced by the Welsh Assembly Government are delivering better health services for older people in Wales? OAQ1539(FM)

C15 Denise Idris Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae camau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu gwell gwasanaethau iechyd i bobl hŷn yng Nghymru? OAQ1539(FM)

The First Minister: As major users of health services, older people in Wales have benefited significantly from mainstream improvements to service access, quality, safety and co-ordination. Through the national service framework for older people, we will drive further improvements to older people's health and social care services, in line with 'Designed for Life'.

Y Prif Weinidog: Fel rhai sy'n gwneud defnydd helaeth o wasanaethau iechyd, mae pobl hŷn yng Nghymru wedi elwa'n sylweddol ar welliannau prif ffrwd o ran mynediad i wasanaethau, eu hansawdd a'u diogelwch a'r cydgysylltiad rhyngddynt. Drwy'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn, byddwn yn bwrw ymlaen i sicrhau rhagor o welliannau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn, yn unol â 'Cynllun Oes'.